Ballad Bag 4.26

YCHYDIG O

# BENNILLION IFORAIDD

A ddatganwyd yn ail Gylchwyl Flynyddawl

## CYFRINFA W. E. POWELL, YSW.

A. S. AC ARGLWYDD RHAGLAW SWYDD CEREDIGION,

## YN NHREFGARON,

*Ar yr* 16*eg dydd o Chwefror,* 1841.

Argraffedig ar gais amryw o Swyddogion o wahanol Gyfrinfaoedd y Deheubarth.

GAN IOAN AB DEWI,
O LANDYSSIL.

---

1 ANWYL Gymry, WIR IFORIAID,
Frodyr llon,
Gwrandewch arnaf fel ffyddloniaid,
Frodyr llon;
Traethu ichwi wnaf yn union,
Mewn modd eglur, rhwydd, a chyson,
Am ein Cymdeithas a'i dybenion,
Frodyr llon.

2 Lluosog ydyw'r cymdeithasau,
Frodyr llon,
Sydd yn Nghymru er ys dyddiau,
Frodyr llon;
Ond nid oes, mae'n eithaf tanbaid
Yn y byd i gyd, 'rwy'n tybiaid,
Un sydd well na'r GWIR IFORIAID,
Frodyr llon.

3 Un prif ddyben ein Cymdeithas,
Frodyr llon,
Yw cadw'n hiaith mewn bri ac urddas,
Frodyr llon;
Cadw i fynu lân ddefodau,
Iawn a didwyll, ein hen deidiau;
Onid ydyw'n waith o'r gorau,
Frodyr llon?

4 Iawn i ni, fel cymreigyddion,
Frodyr llon,
Gyda'n gilydd fod o galon,
Frodyr llon,
Fel y gallom ni yr awrhon
Amddiffyn gwlad ac iaith y Brython;
Gyda'r gorchwyl byddwn ffyddlon,
Frodyr llon.

5 Ein calonog dadau dewrion,
Frodyr llon,
Aethant drwy derfysgoedd mawrion;
Frodyr llon;
Darfu iddynt hwy yn ffyddlon
Ymladd brwydrau celyd, trymion,
Er amddiffyn iaith y Brython,
Frodyr llon.

6 Llawer gwaith bu'r Saeson diras,
Frodyr llon,
Am ein herlid oll o'r deyrnas,
Frodyr llon;
Darfu iddynt yn ddiamau
Wneyd a allent gant o weithiau;
Eto ein hiaith sydd yn ein genau,
Frodyr llon.

7 'Nawr, er gwaethaf Dic Shôn Dafydd,
Frodyr llon,
Dyma Gymry gyda'u gilydd,
Frodyr llon,

X2032223557

Wedi cwrddyd yma'n gymen
I gael gwledda'n eithaf llawen
Ar ein hiaith a'i bywiog awen,
Frodyr llon.

8 Os plant Hengist wnaeth ein lluddias,
Frodyr llon,
I gael y trechaf yn y deyrnas,
Frodyr llon,
Tra bo gwaed yn ein gwythienau
Byddwn ffyddlon hwyr a borau
Dros ein gwlad, ein hiaith, a'n breiniau,
Frodyr llon.

9 Mae'n Cymdeithas yn rhagori
Frodyr llon,
Ar un arall, 'rwyf yn credu,
Frodyr llon;
Tan ei haden hi wna gyrchu
Ei hoff feibion i'w dyddanu
Rhag pob gwasgfa a chaledi,
Frodyr llon.

10 Fe ddaw henaint yn ddiamau,
Frodyr llon,
I gwrddyd rhai o'n gwiw aelodau,
Frodyr llon;
Tosturio wrthynt wnawn yn fuan,
Ac yn eu llogell fe ro'wn arian—
Beth sydd well na'r rhai'n yn unman,
Frodyr llon?

11 Pan ddaw brenin dychryniadau,
Frodyr llon,
I anelu ei bicellau,
Frodyr llon,
Ac i daro'n eithaf cywir,
Nes dwyn bywyd un o'n brodyr,
O! y gofid tost ganfyddir,
Frodyr llon!

12 Yn y cyfryw amgylchiadau,
Frodyr llon,
Bydd ofidus ein calonau
Frodyr llon;
Gwnawn dosturio wrth y gweddwon—
Bydd yn eithaf trwm ein calon—
Gweinwn iddynt wych gysuron,
Frodyr llon.

13 Trwy'n Cymdeithas boed brawdgarwch,
Frodyr llon;
Gweler arni wir brydferthwch
Frodyr llon;
Gan fod cariad yn teyrnasu,
Byddwn bawb fel o'r un teulu;
Ni all y byd i gyd mo'n trechu,
Frodyr llon.

14 Cariad eto fyddo'n danbaid,
Frodyr llon,
Yn mynwesau'r GWIR IFORIAID,
Frodyr llon;
Eu calonau gaffo'n hollol
Eu gorlenwi â chariad brawdol;
Hyn sydd eto'n beth rhagorol,
Frodyr llon.

15 'Nawr o'm calon 'rwy'n dymuno,
Frodyr llon,
I'r Gymdeithas hon i lwyddo,
Frodyr llon,
Nes dwyn plant Gomer oll yn gryno
At eu gilydd unwaith eto:
Amen, Amen mai felly y byddo,
Frodyr llon.

ARGRAFFWYD GAN D. JENKINS, ABERYSTWYTH.